Archwiliad Cenedlaethol o Laparotomïau Brys

Hysbysiad Preifatrwydd

Beth yw nod yr Archwiliad Cenedlaethol o Laparotomïau Brys (NELA)?
Caiff NELA ei gomisiynu gan y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP) fel rhan o'r Rhaglen Genedlaethol Archwilio Clinigol ar ran NHS England a Llywodraeth Cymru.

Mae'r Archwiliad Cenedlaethol o Laparotomïau Brys (NELA) yn cael ei gynnal gan Ganolfan Ymchwil Gwasanaethau Iechyd y Sefydliad Cenedlaethol er Anesthesia Academaidd (NIAA) ar ran Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion.

Nod NELA yw gwella ansawdd gofal i gleifion sy'n cael llawdriniaeth frys ar y coluddyn (laparotomi brys) trwy ddarparu gwybodaeth gymharol o ansawdd uchel a ddarperir gan ysbytai yng Nghymru a Lloegr sy'n cynnal laparotomïau brys.

Pa wybodaeth rydym ni'n ei chasglu amdanoch chi a sut rydym ni'n ei defnyddio?
Byddwn yn casglu gwybodaeth am y gofal gaiff cleifion tra byddant yn yr ysbyty. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am yr archwiliadau a'r triniaethau a gafwyd, pa mor hir y gwnaeth gymryd i roi gwahanol rannau o'r driniaeth, a ph'un a aeth claf i wely gofal critigol ar ôl ei lawdriniaeth. Y wybodaeth bersonol byddwn ni'n ei chasglu yw eich enw, dyddiad geni, rhif y GIG, cod post a rhywedd.

Cyflwynir data cleifion NELA yn uniongyrchol i NELA gan dimau clinigol sy'n trin y claf neu o gofnodion yr ysbyty.

Ni fydd NELA yn cyhoeddi gwybodaeth sy'n gallu datgelu pwy yw cleifion unigol.

Trwy gasglu a rhannu'r wybodaeth hon, rydym yn gallu amlygu meysydd lle mae ysbytai yn gwneud yn dda, a meysydd lle gallant wella ansawdd y gofal i gleifion fel y gallant roi cynlluniau ar waith i gyflawni hyn. Hefyd, bydd yn galluogi ysbytai i gymharu eu hunain ag ysbytai eraill yng Nghymru a Lloegr a, thrwy hynny, gwella ansawdd gofal trwy rannu enghreifftiau o arfer da.

Y Rheolwr Data
Fel comisiynwyr NELA, HQIP yw'r rheolwyr data ar gyfer y data am gleifion a gyflwynir i'r archwiliad, h.y. nhw yw'r sefydliad sy'n rheoli prosesu'r data.

Sylfaen gyfreithiol ar gyfer prosesu data personol
O dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, mae'r sylfeini cyfreithiol perthnasol yn gymwys: mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a ymddiriedwyd yn y rheolwr (Erthygl 6 (1)(e ac (Erthygl 9 (2)(i mae'r prosesu

yn angenrheidiol am resymau budd y cyhoedd ym maes iechyd y cyhoedd, er enghraifft amddiffyn rhag bygythiadau trawsffiniol difrifol i iechyd neu sicrhau safonau uchel o ansawdd a diogelwch gofal iechyd a chynhyrchion meddyginiaethol neu ddyfeisiau meddygol, ar sail cyfraith yr Undeb neu'r Aelod-wladwriaeth, sy'n darparu ar gyfer mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau a rhyddidau gwrthrych y data, yn benodol, cyfrinachedd proffesiynol.

O dan Ddyletswydd Cyfrinachedd Cyfraith Gyffredin (y Ddyletswydd), mae NELA yn defnyddio Adran 251 fel ei sylfaen gyfreithiol ar gyfer bodloni'r Ddyletswydd.

Ar hyn o bryd, mae gan NELA gymeradwyaeth o dan Adran 251 i gasglu data ar lefel cleifion (cyfeirnod: CAG 5-07(d)/2013) ar gyfer pob claf laparotomi brys sy'n cael ei dderbyn i'r ysbyty.

Mae rhagor o wybodaeth am Adran 251 ar gael yma: http://www.hra.nhs.uk/about-the-hra/our-committees/section-251/what-is-section-251/.

Y sail resymegol ar gyfer hyn yw bod llawer o gleifion laparotomi brys yn hynod sâl cyn ac ar ôl iddynt gael laparotomi brys, felly ni fyddai'n ymarferol gofyn i bob claf am eu cydsyniad.

Sut rydym ni'n diogelu'ch data

Mae Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion yn cymryd diogelwch eich data o ddifrif. Er mwyn atal mynediad anawdurdodedig i ddata, neu ei ddatgelu'n anawdurdodedig, rydym wedi rhoi gweithdrefnau ymarferol, electronig a rheolaethol addas ar waith i amddiffyn a diogelu'r wybodaeth a gasglwn ar-lein.

Mae timau clinigol lleol yn rhoi data'r cleifion ar adnodd diogel ar y we, a ddarperir gan Netsolving Ltd. Dim ond yr ysbytai sy'n cymryd rhan trwy'r meddygon, y nyrsys a staff yr archwiliad clinigol, a thîm prosiect NELA, fydd yn gallu mynd at yr adnodd ar y we. Cynhelir diogelwch a chyfrinachedd trwy ddefnyddio cyfrineiriau a phroses gofrestru person benodol.

Cyfrinachedd cleifion a lefel y data a gesglir

Mae'r wybodaeth am gleifion sy'n dod i law tîm NELA ac sy'n cael ei rheoli gan y tîm yn cael ei thrin yn gyfrinachol. Mae'r wybodaeth ar gael i dîm NELA mewn fformat dienw yn unig a defnyddir cyfres o rifau a gynhyrchwyd gan gyfrifiadur i wahaniaethu rhwng cleifion unigol. Cedwir y data hwn am gyfnod yr archwiliad ac am 5 mlynedd ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Byddwn yn cynnal cyfrinachedd a diogelwch gwybodaeth cleifion fel a ganlyn:

- Cynhyrchir pob adroddiad ar lefel grynswth (cenedlaethol, rhanbarthol, ysbyty).
- Ym mhob cyhoeddiad yr archwiliad, caiff y wybodaeth ystadegol ei hadolygu i sicrhau bod cyn lleied o risg â phosibl o adnabod pobl a, lle bo'r angen, caiff niferoedd bychain eu celu. Mae'r asesiad hwn yn dilyn canllawiau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol – Adolygu Lledaenu Ystadegau Iechyd: Canllawiau Cyfrinachedd (PDF).

Rheoli data cleifion gan dîm NELA

Mae tîm NELA wedi'u lleoli yng Ngholeg Brenhinol yr Anesthetyddion (RCoA) a Choleg Brenhinol y Llawfeddygon y Lloegr (RCS). Mae RCoA ac RCS yn cydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth arall sy'n ymwneud â chasglu a defnyddio data cleifion, ac mae ganddynt fesurau diogelwch caeth ar waith i ddiogelu gwybodaeth cleifion. Mae NELA yn cadw data anhysbys am

gleifion ar gyfrifiadur diogel a dim ond aelodau awdurdodedig o'r tîm archwilio sy'n gallu cael atoei ddefnyddio. Mae sawl lefel diogelwch wedi'i chynnwys yn y system TG, gan gynnwys:

- Diogelwch cyfrineiriau manylion adnabod: caiff y data ei gadw ar system wedi'i hamddiffyn gan gyfrinair, sy'n atal defnyddwyr anawdurdodedig rhag mynd at y data.
- Caiff y ffeiliau data a gedwir eu hamgryptio.

Gyda phwy rydym ni'n rhannu data
Mae NELA yn rhannu data lefel cleifion gan ddilyn gweithdrefn lywodraethu caeth yn unig i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

Mae gan NELA ganiatâd i gysylltu data lefel cleifion â chronfeydd data cenedlaethol eraill fesul achos unigol. Mae gan NELA Gytundeb Rhannu Data cyfredol gyda

- NHS Digital ar gyfer data ysbytai Lloegr (Ystadegau Cyfnodau Gofal Ysbyty)
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar gyfer y gofrestr marwolaethau
- Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) ar gyfer data ysbytai Cymru (Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (PEDW))
- Canolfan Ymchwil ac Archwilio Cenedlaethol Gofal Dwys (ICNARC) ar gyfer data gofal critigol

Mae cysylltu â data HES yn galluogi NELA i gymharu nifer y cofnodion a gyflwynir i NELA gyda'r nifer sydd wedi'u hôl-gofnodi yn HES, i sicrhau data o ansawdd uchel. Mae'r cysylltu hyn hefyd yn galluogi dadansoddi'r cysylltiadau rhwng y rhai sy'n cael laparotomïau brys a chyflyrau meddygol eraill. Mae cysylltu â data ONS yn galluogi NELA i adrodd ar gyfraddau marwolaethau yn ystod y 30 diwrnod cyntaf ar ôl i gleifion gael eu derbyn i ysbyty. Mae cysylltu â data PEDW yn galluogi NELA i gymharu nifer y cofnodion a gyflwynir i NELA gyda'r nifer sydd wedi'u hôl-gofnodi yn nata PEDW i sicrhau data o ansawdd uchel. Mae cysylltu data NELA â data ICNARC yn galluogi dadansoddiad tymor hwy o ddata gofal critigol.

Gallai ymchwilwyr wneud cais i Reolwr Data NELA (Y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd, HQIP), i gael at ddata NELA. Mae'r ceisiadau hyn yn mynd trwy broses gymeradwyo drylwyr, fel yr amlinellir yma.

Beth os nad wyf eisiau i'r Archwiliad ddefnyddio fy ngwybodaeth?
Fel claf, gallwch ddewis eithrio o NELA. Ni fydd eithrio o'r Archwiliad yn effeithio ar y gofal gaiff claf. Anfonwch e-bost at info@nela.org.uk a rhowch "Cais claf i eithrio o'r archwiliad/Patient request to opt-out" yn llinell y pwnc. Yna, byddwn yn cysylltu â'r ysbyty i ofyn nad yw'n cynnwys eich manylion yn yr archwiliad. Fel arall, rhowch wybod i aelod o'ch tîm gofal lleol eich bod am eithrio o'r archwiliad.

Os bydd eich manylion eisoes wedi'u cynnwys yng nghronfa ddata NELA, mae'n bosibl y bydd eich hawl i gael at eich gwybodaeth, ei newid neu ei dileu, yn fwy cyfyngedig, oherwydd mae angen i ni reoli'ch gwybodaeth mewn ffyrdd penodol er mwyn i ymchwil ac adroddiadau fod yn ddibynadwy ac yn gywir. Os na fydd eich data wedi'i ddefnyddio eto at ddiben dadansoddi, caiff ei dynnu o gronfa ddata NELA. Os bydd eich data eisoes wedi'i ddefnyddio at ddiben dadansoddi, ni fyddwn yn gallu

dileu gwybodaeth amdanoch rydym ni eisoes wedi'i chael a'i defnyddio. I ddiogelu eich hawliau, byddwn yn defnyddio cyn lleied â phosibl o wybodaeth bersonol a allai ddatgelu pwy ydych.

Os yw'n well gennych, gallwch ffonio Llinell Gymorth NELA ar 020 7092 1683.

Newidiadau i'n polisi preifatrwydd
Rydym yn adolygu ein polisi preifatrwydd yn rheolaidd a byddwn bob amser yn cynnwys y fersiwn diweddaraf ar y dudalen we hon.

Pwy alla' i gysylltu â nhw am yr hysbysiad hwn?
Mae gan RcoA Swyddog Diogelu Data, sef Sharon Drake, a all eich helpu gydag unrhyw ymholiadau am y wybodaeth yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn: dpo@rcoa.ac.uk
Hefyd, mae gennych yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, yr awdurdod goruchwylio yn y DU sy'n gyfrifol am weithredu a gorfodi cyfraith diogelu data, os oes gennych bryderon am y ffordd y mae eich data personol yn cael ei drin. Gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy eu gwefan - https://ico.org.uk/concerns/ - neu drwy ffonio'u llinell gymorth - 0303 123 1113.

Diweddarwyd y polisi preifatrwydd hwn ddiwethaf ym Mai 2018